

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 18 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea, J.M. Norman, H.M. Payne a E. Penn

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru) a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); A. Emmerson ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: : Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G.D.D. Carroll, A.M. Ernest, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd H.M. Payne yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Cynghorydd H.M. Datganodd Payne fuddiant cyffredinol (personol nid rhagfarnol), nad oedd yn ymwneud ag eitem benodol ar yr agenda, gan ei bod yn Ymddiriedolwr ac yn Is-Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Fro.

EITEM AGENDA 5. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD
CHWARTER 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL
ARFAETHEDIG 2023/24 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) Y DYLID nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2023/24.
- (3) CYMERADWYO Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Alinio ag Adran 7.6 o Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.
- (3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.